Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

2.00pm, Dydd Mawrth 2 Chwefror 2021
Cyfarfod Microsoft Teams

COFNODION

Yn bresennol	
Enw	**Sefydliad**
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Y Cynghorydd Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Yr Athro Jean White	Llywodraeth Cymru
Yr Uwcharolygydd Gary Phillips	Heddlu Dyfed-Powys
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Ruth Mullen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Martyn Palfreman	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
Huw Thomas	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Menna Davies	Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Hefyd yn bresennol	
Enw	**Sefydliad**
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Noelwyn Daniel	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amy Richmond-Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Harries	Cyngor Tref Caerfyrddin
Y Cynghorydd Gareth John	Cyngor Tref Caerfyrddin
Mark Galbraith	Cyngor Gwledig Llanelli
Darren Rees	Cyngor Gwledig Llanelli
Clare Hale	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Phil Rowe	Heddlu Dyfed-Powys

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Barry Liles, Cadeirydd y BGC, bawb i'r cyfarfod rhithwir a chyflwynodd ddau aelod newydd, sef yr Uwcharolygydd Gary Phillips a Huw Thomas.

Ymddiheuriadau	
Enw	**Sefydliad**
Y Cynghorydd Jan Curtice	Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Beth Cossins	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Rhian Dawson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

2. Cofnodion a Materion yn Codi

15 Rhagfyr 2020

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

3. Cynllun Datblygu Asesiad Llesiant

Disgwylir i'r Asesiad Llesiant nesaf gael ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2022. Datblygwyd yr asesiad cyntaf gyda Cheredigion a Sir Benfro yn 2016. Hefyd roedd gwaith partneriaeth yn cael ei wneud gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i gynnal Asesiad Poblogaeth.

Cytunodd yr holl Aelodau â'r dull rhanbarthol arfaethedig, i ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer swydd swyddog a chydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

4. Cynllun Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin - y Wybodaeth Ddiweddaraf

Cronfa Her yr Economi Sylfaenol - Prosiect Caffael Bwyd y Sector Cyhoeddus

Mae'r cyllid yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth ac mae'n mynd rhagddo'n dda.

- Caffael – Mae CLES wedi cwblhau adroddiadau gydag argymhellion a'u rhoi i'r sefydliadau. Bydd cyfle iddynt ystyried y rhain cyn i swyddogion perthnasol ailymgynnull i nodi meysydd posibl ar gyfer cydweithio. Yna cyflwynir adborth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd cyfle i Aelodau eraill ymuno â thrafodaethau yn y dyfodol.
- Cadwyn cyflenwi bwyd – Y ffocws ar hyn o bryd yw mapio'r galw sefydliadol yn erbyn y cyflenwad lleol sydd ar gael ar hyn o bryd, yn enwedig bwyd ffres. Hefyd mae'n edrych ar arferion gorau mewn mannau eraill lle mae caffael yn y sector cyhoeddus wedi dylanwadu ar y cyflenwad lleol. Cynhelir dau ddigwyddiad mawr i randdeiliaid ym mis Mawrth a bydd y dyddiadau hyn yn cael eu rhannu.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar y bydd cyllid ychwanegol ar gyfer datblygu prosiectau presennol y Gronfa Her.

Cafwyd trafodaeth ar Themâu, Canlyniadau a Mesurau a chytunwyd i ychwanegu hyn at Gynllun Gwaith Cronfa Her yr Economi Sylfaenol.

Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd dau brosiect wedi'u cymeradwyo ar gyfer y cyllid a ddyrannwyd. Mae'r prosiect plannu coed yn mynd rhagddo'n dda. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cwblhau'r gwaith uwch gynllunio Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Lôn Jackson a Chastell Newydd Emlyn cyn y dyddiad cau ar ddiwedd

mis Mawrth. O ganlyniad, dim ond elfennau o'r prosiect fydd yn cael eu cyflawni a'r gobaith yw, os bydd cyllid ar gael, y bydd y gwaith yn parhau y flwyddyn nesaf.

Gwahoddwyd partneriaid i gysylltu â Jean White i fynd ar drywydd cyfyngiadau ariannol o ran Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd Ruth Mullen y bydd hi hefyd yn ymateb i ohebiaeth sydd wedi dod i law yn gofyn am adborth ar y rhwystrau a'r heriau sy'n arwain at y niferoedd isel o geisiadau am gyllid CNC/LlC yn ymwneud â'r Goedwig Genedlaethol ac Ecoleg Gynaliadwy. Mae gan y ddwy raglen amserlenni tynn a meini prawf anodd.

Prosiect Cronfa Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws

Cafwyd cymeradwyaeth ganol mis Ionawr ac mae angen gwario'r cyllid erbyn diwedd mis Mawrth. Roedd y broses dendro wedi'i chwblhau cyn cadarnhau, ac o ganlyniad roedd penodiadau wedi cael eu gwneud yn gyflym ar gyfer y porth a'r hyfforddiant ar-lein sy'n mynd rhagddynt yn dda. Yn anffodus, ni fu'n bosibl penodi ymgynghorydd ar gyfer gwaith y Strategaeth Wirfoddoli sydd bellach wedi'i rannu'n dri darn o waith: Rhan BGC o'r prosiect yn ymwneud â datblygu, gwirfoddoli mewn argyfwng, a gwirfoddoli lleol. Cymeradwywyd y prosiect gan yr holl Bartneriaid.

Cynllun Gwaith

Datblygwyd hwn i gadw golwg ar y prosiectau a'r mentrau niferus y mae'r BGC yn ymwneud â nhw. Bydd yn eitem sefydlog ar yr agenda ac yn cael ei diweddaru fel y bo'n briodol.

Mae'r prosiect Caffael Blaengar yn brosiect rhanbarthol, ar sail ôl troed Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Cynhelir gweithdy cychwynnol ar 11 Chwefror, wedi'i hwyluso gan CLES a'i gefnogi gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu CLES i weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y 10 mis nesaf i herio'r meddylfryd ar egwyddorion caffael blaengar. Bydd elfen yn dyblygu prosiect yr Economi Sylfaenol gyda'r fantais o weithio gyda sefydliadau eraill a chydweithio ar sail ôl troed gwahanol.

Y CAMAU GWEITHREDU	
Dosbarthu gwahoddiadau i Ddigwyddiadau Rhanddeiliaid Cronfa Her yr Economi Sylfaenol – 16 Mawrth yn y prynhawn a 18 Mawrth yn y bore	Tîm Cynorthwyo BGC
Cyflwyno Adroddiad Caffael CLES mewn cyfarfod yn y dyfodol	Tîm Cynorthwyo BGC
Ychwanegu Themâu, Canlyniadau a Mesurau at Gynllun Gwaith Cronfa Her yr Economi Sylfaenol	Tîm Cynorthwyo BGC
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gyllid CNC yn y cyfarfod nesaf	Kate Harrop / Huwel Manley
Gwahodd partneriaid i gysylltu â Jean White i fynd ar drywydd cyfyngiadau ariannol o ran Llywodraeth Cymru	Pawb
Cynllun gwaith i fod yn eitem sefydlog ar yr agenda	Tîm Cynorthwyo BGC

5. Ffocws blaenoriaethau newydd – amlinelliad o'r trefniadau

Bregusrwydd

Mae bregusrwydd yn gyfrifol am 80% o'r galw am yr heddlu. Sefydlwyd yr Hwb Bregusrwydd yn y Pencadlys i sicrhau dull cyson ar draws ardal yr heddlu. Datblygwyd dull system gyfan o ran bregusrwydd a mabwysiadwyd ethos y Bwrdd Diogelu, sef 'y cymorth iawn ar yr adeg iawn'. Mae'r Hwb wedi bod ar waith ers 12 mis ac mae'n cael ei werthuso ar hyn o bryd. Un

o'r datblygiadau allweddol yw cyflwyno'r Ddesg Brysbennu ac Asesu. O ran bregusrwydd a diogelu, nid oes unrhyw bryderon ynghylch rhannu gwybodaeth ond mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rhannu gwybodaeth gorfforaethol.

Croesawyd y cysylltiadau cryf â'r Bwrdd Diogelu, ond mae gan y BGC rôl o ran atal y materion lefel is rhag gwaethygu. Cytunwyd i gysylltu â'r Bwrdd Diogelu o ran mabwysiadu'r dull gweithredu, sy'n debyg i ddull clwstwr Powys o rannu gwybodaeth ag ysgolion. Cytunwyd hefyd i gynnal gweithdy strategol i adolygu rhannu gwybodaeth gorfforaethol a chytuno ar y camau nesaf.

Hybiau Gwasanaethau Cyhoeddus Canol Tref

Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin i rannu gwybodaeth am ffyrdd newydd a gwell o weithio ar ôl COVID. Cytunwyd i ymgymryd â'r gwaith cwmpasu cychwynnol o ran y gweithlu, TGCh, cyfathrebu, adeiladau ac eiddo. Y nod yw nodi cyfleoedd i gydweithio mewn perthynas â hybiau canol tref a bod yn amlwg o bosib mewn trefi gwledig. Estynnwyd gwahoddiad i'r holl aelodau ymuno â'r sgyrsiau.

Y CAMAU GWEITHREDU	
Cysylltu â'r Bwrdd Diogelu o ran mabwysiadu dull gweithredu clwstwr Powys o rannu gwybodaeth ag ysgolion	Gary Phillips / Tîm Cynorthwyo BGC
Cynnal gweithdy strategol i adolygu rhannu gwybodaeth gorfforaethol a chytuno ar y camau nesaf	Tîm Cynorthwyo BGC
Partneriaid i gysylltu â Gwyneth Ayers i fod yn rhan o'r gwaith yn ymwneud â'r Hybiau Gwasanaethau Cyhoeddus Canol Tref	Pawb
Bydd Hybiau Gwasanaethau Cyhoeddus Canol Tref yn eitem sefydlog ar yr agenda	Tîm Cynorthwyo BGC
Sicrhau cysylltiadau rhwng gwaith Hybiau Cymunedol Llywodraeth Cymru a'r Hybiau Gwasanaethau Cyhoeddus Canol Tref	Tîm Cynorthwyo BGC

6. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Mae'r cynlluniau cyflawni ar gyfer rhaglenni'r Gronfa Trawsnewid yn cael eu datblygu a derbyniwyd cyllid ar gyfer blwyddyn bontio arall. Cafwyd cadarnhad hefyd ynghylch dyraniad y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer y flwyddyn nesaf ac mae sgyrsiau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid olynol. Rhoddwyd trosolwg o'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 6 Ebrill.

Y CAMAU GWEITHREDU	
Rhannu papur briffio ar y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth a'r ymateb i ymgynghoriad y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gydag aelodau	Martyn Palfreman
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r Prosiect Technoleg a Chymunedau Cysylltiedig a gweithgarwch arfaethedig yn ystod y flwyddyn bontio	Martyn Palfreman
Rhoi gwybodaeth o ran y Cydbwyllgor Corfforaethol yn y cyfarfod nesaf	Gwyneth Ayers

7. Adroddiadau Blynyddol Cynghorau Tref/Cymuned

Cyngor Gwledig Llanelli

Rhoddodd Darren Rees, Swyddog Datblygu Cymunedol, drosolwg o'r ffordd y mae'r cyngor yn bodloni Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin. Mae'r mentrau a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys: Hwb Casglu Sbwriel, Cyfeillion Stryd, Credydau Amser a phrosiect Hwb Llwynhendy lle mae astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal. Rhoddodd Mark Galbraith, Clerc, drosolwg o'r cynlluniau ar gyfer Cronfeydd Cwm Lliedi lle bydd y ffocws tymor byr ar osod pontŵn ac adnewyddu'r bloc toiledau.

Cyngor Tref Caerfyrddin

Rhoddodd Alun Williams, Clerc, drosolwg o'r datblygiadau yn ystod pandemig COVID a oedd yn creu heriau o ran ffyrdd o weithio. Canolbwyntiwyd ar ofalu am y rhai sy'n agored i niwed a defnyddiwyd tudalen Facebook newydd i gyrraedd llawer ohonynt. Mae'r Cyngor Tref hefyd wedi helpu i ddarparu 150 o fasgedi crog, 500 o feisorau diogelwch (ar y cyd â'r Ford Gron), a hylif diheintio dwylo. Un o elfennau allweddol llesiant cymunedol yw Parc Caerfyrddin sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau ac yn cynnal digwyddiadau amrywiol megis Gŵyl y Gaeaf a ddenodd 62,000 o bobl i'r dref.

Y CAM GWEITHREDU	
Cysylltu â Huwel Manley i drafod cyfleoedd cyllid	Mark Galbraith / Darren Rees

8. Unrhyw Fater Arall

Y Cyfrifiad

21 Mawrth 2021 yw diwrnod y Cyfrifiad a dylai unrhyw sefydliadau sydd am fod yn rhan o hyrwyddo'r Cyfrifiad gysylltu â Gwyneth Ayers.

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn destun ymgynghoriad cyn bo hir a bydd yn cael ei rannu pan gaiff ei gyhoeddi.

Diweddariad Dyddiol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cytunwyd i ailddosbarthu'r ddolen i ddiweddariad dyddiol COVID Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Y CAMAU GWEITHREDU	
Sefydliadau sy'n dymuno bod yn rhan o hyrwyddo'r Cyfrifiad i gysylltu â Gwyneth Ayers	Pawb
Rhannu'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol pan gaiff ei gyhoeddi	Tîm Cynorthwyo BGC
Ailddosbarthu'r ddolen i ddiweddariad dyddiol COVID Iechyd Cyhoeddus Cymru	Tîm Cynorthwyo BGC